**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Ystyried p'un fyddai'r ffordd orau i gyrraedd yr arbedion effeithlonrwydd o 1% yng nghyllideb 2005/6 |

1. **CEFNDIR**

1.1 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2004, cymeradwyodd yr aelodau y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-2006 ar £27,951,864, sef cynnydd o 4.09% yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2004-2005.

1.2 Fel rhan o'r gyllideb honno, mae'n rhaid adnabod arbedion effeithlonrwydd o £294,123. Dirprwywyd y pŵer i ystyried a chymeradwyo sut y gellir penderfynu ar yr arbedion effeithlonrwydd o £294,123 a'i gweithredu ar gyfer cyllideb 2005-2006 i'r Panel Gweithredol.

1.3 Fel rhan o foderneiddio'r Gwasanaeth, ac yn gynwysedig yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru, mae'r awdurdodau tân ac achub yn cael eu gorchymyn i lunio Cynllun Integredig Rheoli Risg. Prif nod y Cynllun Risg yw sicrhau gwasanaeth tân ac achub sy'n dod yn fwyfwy cynhyrchiol ac effeithlon ac yn fwy ymatebol i amgylchiadau lleol.

1.4 Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhoi'r Adolygiad o'r Strwythur Reolaethol ar waith, a oedd, ynddo'i hun, yn sicrhau bod y gwasanaethau craidd yn cael eu cyflwyno'n fwy effeithiol ac effeithlon trwy ailddyrannu adnoddau, a bod yr egwyddorion o atebolrwydd a gweithio'n effeithlon yn cael eu cynnal.

2. **YSTYRIAETH**

2.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol mai'r cynnydd gwaelodol yn y gyllideb oedd 9.53%. Cafodd unrhyw arbedion untro posib i liniaru'r cynnydd hwn eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ar 20fedRhagfyr 2004.

2.2 Rhaid i'r arbedion effeithlonrwydd a gaiff eu nodi o ganlyniad i'r cyfarfod heddiw fod yn arbedion cylchol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhaid i'r swm a arbedir (£294,123) gael ei wireddu o fewn blwyddyn cyllideb 2005-2006 a bydd yn cael ei dynnu am byth o'r gyllideb sylfaen.

2. **YSTYRIAETH** *(parhad)*

2.3 Bydd yr aelodau'n ymwybodol fod cyllido y cyllidebau ar gyfer y diffoddwyr tân rhan amser wastad wedi bod yn seiliedig ar lefel "llu llawn". Mae hyn yn tarddu o'r dyddiau pryd roedd Arolygydd Gwasanaethau Tân Ei Mawrhydi yn arolygu'r Gwasanaeth yn rheolaidd, yn unol a gofynion Deddf y Gwasanaethau Tân 1947 (sydd bellach wedi ei diddymu) i gael "llu cymeradwyedig" ar gyfer staff diffodd tân. Dan y ddeddfwriaeth newydd (Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004), nid yw hyn bellach yn ofyniad. Nid oes raid felly i'r Awdurdod deimlo rheidrwydd i gyllidebu bob blwyddyn ar gyfer lefel llu nad oedd erioed, mewn gwirionedd, yn cael ei gyrraedd, ond sydd yn gadael yr Awdurdod, bob blwyddyn arferol, gydag arian dros ben. Dros y blynyddoedd, mae'r gyllideb alldro ar gyfer cyflogau diffoddwyr tân rhan amser yn gyson wedi cael ei danwario o ryw £350,000 bob blwyddyn. Ni fyddai gostwng y ddarpariaeth yn y gylldieb ar gyfer staff rhan amser yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, oherwydd ni fyddai'n newid y lefel presennol o wasanaeth. Efallai y byddai'r Aelodau'n dymuno adolygu'r rhan yma o'r gwariant oherwydd efallai bod modd cael y rhan fwyaf o'r arbedion effeithlonrwydd trwy hyn.

2.4 Roedd Cynllun Risg cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub yn gost niwtral ond roedd yn tynnu sylw at feysydd arbedion effeithlonrwydd a gafodd eu hailgyfeirio i feysydd eraill o'r gwasanaeth.

2.5 Mae ail flwyddyn y Cynllun Risg, sydd ar hyn o bryd allan ar ymgynghoriad, yn cynnwys nifer o adolygiadau ac adroddiadau i'w hystyried yn ystod 2005-2006. Ar yr adeg hon, nid yw'r canlyniad yn hysbys ond efallai y bydd arbedion yn cael eu hadnabod y medr yr aelodau eu hystyried.

2.6 Dan Adran 19 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn fuan, ymgynghori ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Gorchymyn cyntaf sy'n rhestru'r pŵer fydd gan yr awdurdod tân ac achub o ran codi tâl am wasanaethau. Yn ddibynnol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwnnw, efallai bod cyfle i gynyddu'r incwm am wasanaethau arbennig.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr Aelodau, o gofio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn, yn trafod ac yn cytuno ar y rhannau allweddol o gyllideb yr awdurdod tân ac achub lle maent yn dymuno gweld arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn 2005-2006.